

Cyfleoedd Cyllido Ymchwil 2020/2021: Cymrodoriaethau PhD G

Mae'n bleser gan RCBC (Cydwethrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil) Cymru (<http://www.rcbcwales.org.uk>) gyhoeddi cyllid ar gyfer Cymrodoriaethau PhD mewn Nyrsio, Bydwreigiaeth, Fferylliaeth a Phroffesiynau Iechyd Cysylltiol i gychwyn **IONAWR 2021**. Gwahoddir ceisiadau gan weithwyr proffesiynol cymwys am gymrodoriaethau a ariennir gan RCBC Cymru a gyllidir drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Dyfernir y Cymrodoriaethau i'r Prifysgolion cydwethrediadol (rhestrir y sefydliadau isod).

Bydd RCBC Cymru yn ariannu PhD'au amser llawn am 3 blynedd. Dim ond yn ôl disgrisiwn y brifysgol sy'n lletya caiff ceisiadau am astudiaeth ran amser (ddim llai na 3 diwrnod yr wythnos) eu hystyried.

Caiff cymrodyr eu goruchwylio gan ymchwilwyr profiadol a chael mynediad i hyfforddiant mewn dulliau ymchwil gyda'r brifysgol sy'n lletya. Un o amodau'r dyfarniad ydy bod pob Cymrawd yn dod yn aelod o Gymuned yr Ysgolorion (CoS) a mynychu dyddiadau astudio CoS. Bydd disgwyl i'r Cymrodyr gyflwyno eu hymchwil ar ddiwedd y cynllun mewn digwyddiad Cymuned yr Ysgolorion.

Dylai pob ymgeisydd ymrwymo i themâu a blaenoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r sefydliad y maen nhw'n gwneud cais iddo i gynorthwyo a datblygu ymchwil rhagorol sy'n cael effaith bositif ar iechyd, llesiant a ffyniant pobl yng Nghymru. Gall y rhain gynnwys astudio unrhyw agwedd o nyrsio, bydwreigiaeth, gofal iechyd cysylltiol neu fferylliaeth sy'n ffocysu'n benodol ar:

- rolau proffesiynol newydd a datblygol
- gofal integredig
- egwyddorion gofal iechyd darbodus, h.y.:
 - cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaeth cyfartal drwy gyd-gynhyrchu
 - gofal yn gyntaf ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf o ran iechyd
 - gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig a pheidio â gwneud niwed
 - lleihau amrywiad anaddas drwy ddulliau yn seiliedig ar dystiolaeth.

Meini Prawf cymhwysra

- Rhaid bod ymgeiswyr wedi cofrestru yn y DU fel Nyrs, Bydwraig, neu Fferylllydd neu weithiwr Proffesiynol Cysylltiol (h.y. rhaid eu bod wedi'u cofrestru gyda'r NMC, HCPC neu'r GPC pan fyddan nhw'n cychwyn yr astudiaeth). Ceir diffiniad o Swyddi Iechyd Perthynol yng Nghofrestr Cyngor Proffesiynau Iechyd. (gweler <http://www.hpc-uk.org/aboutregistration/professions/>) ac yn cynnwys tua 16 o broffesiynau iechyd Gallai gwyddonwyr biofeddygol a chlinigol fod wedi cofrestru gyda'r HCPC neu wedi'u cofrestru drwy drefniadau rheoliadol gwirfoddol drwy Academi Gwyddorau Gofal Iechyd. Sylwer, does gan RCBC Cymru mo'r cyllid i ystyried ariannu gweithwyr proffesiynol tu allan i'r grwpiau gofal iechyd hyn.
- Mae angen i ymgeiswyr feddu ar radd gyntaf (o ddewis 2.1 neu uwch) o Brifysgol neu Sefydliad a gydnabyddir gan y 6 Sefydliad Addysg Uwch sy'n ymwneud â RCBC Cymru.
- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus breswyllo yng Nghymru drwy gydol cyfnod y dyfarniad neu gael eu cyflogi o fewn GIG Cymru/Sefydliad Addysg Uwch Cymru

Yn ogystal â'r meini prawf cymhwysra personol a welir yn yr hysbyseb y mae rhaid eu diwallu, bydden ni'n annog pob ymgeisydd i geisio datblygu astudiaeth a fydd yn gymwys ar gyfer ei chofrestru ym Mhortffolio Ymchwil Clinigol HCRW (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru) lle bo'n addas. Ceir gwybodaeth, yn cynnwys dogfen fanwl y gellir ei lawrlwytho ar: <http://www.healthandcarereseach.gov.wales/get-your-study-on-the-clinical-research-portfolio/>. I grynhoi, i fod yn gymwys ar gyfer Portffolio Ymchwil Clinigol Iechyd a Gofal Cymru, dylai astudiaethau gynnwys:

1. Ymchwil gyda chleifion y GIG, defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol neu bobl sy'n ymwneud â'u gofal;
2. derbyn arian grant ymchwil drwy ffrwd cyllido agored, wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, yn genedlaethol gystadleuol;
3. meddu ar gwestiwn/hypothesis ymchwil;
4. cael ei arwain gan/neu drwy recriwtio cyfranogwyr yng Nghymru.

Rheolir y broses recriwtio ar gyfer Cymrodoriaethau PhD gan Brifysgol De Cymru gyda mewnbwn gan y Prifysgolion cydweithrediadol. Lleolir y Cymrodoriaethau o fewn grwpiau ymchwil sefydledig o fewn yr Ysgolion/Adrannau a restrir isod. Neilltuir o leiaf un goruchwylydd ar gyfer cymrodyr, a'r prif fentor yn dod o un o Ysgolion/Adrannau partneriaeth yr RCBC.

Bydd y broses o wneud cais yn cynnwys y canlynol:

1. Cysylltu ag Arweinydd Gweithredol yn eich dewis cyntaf o brifysgol er mwyn trafod eich darpar gais ac i bennu ac enwi goruchwylydd.
2. Ffurflenni gwirio cymhwysra i'w cwblhau a'u dychwelyd at: marina.mcdonald@southwales.ac.uk unrhyw bryd hyd at **30 MEDI 2020**. Hysbysir ymgeiswyr o fewn 10 diwrnod o dderbyn y ffurflen wirio a ydyn nhw'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysra.
3. Er mwyn cynorthwyo i fireinio'u syniadau, gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gymryd rhan mewn gweminar gydag arbenigwyr mewn cynllunio ymchwil, dulliau ansoddol a meintiol, ymglymu cleifion a gwella gwasanaeth. Byddan nhw hefyd yn ystyried manteisio i'r eithaf ar effaith eu prosiect a rheoli eu prosiect. Cynhelir y weminar ar **7 HYDREF 2020**
4. Gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gyflwyno ffurflen gais lawn o'u cynnig erbyn **11 TACHWEDD 2020**
5. Ar ôl tynnu rhestr fer o'r ceisiadau, dewisir drwy gyfweiliad. Cynhelir y cyfweiliadau **9 RHAGFYR 2020**.
6. Bydd y Cymrodoriaethau'n cychwyn o fis **IONAWR 2021**

Isod, gwelir tabl y broses o wneud cais:

Y Broses o Wneud Cais		Dedlein/Dyddiadau allweddol
Cam 1	Cysylltu ag Arweinydd Gweithredol yn eich dewis cyntaf o brifysgol er mwyn trafod eich darpar gais ac i bennu ac enwi goruchwylydd	Yn syth a chyn cyflwyno eich ffurflenni gwirio cymhwysra
Cam 2	Ffurflenni gwirio cymhwysra i'w cwblhau a'u dychwelyd at: marina.mcdonald@southwales.ac.uk	30 MEDI 2020
Cam 3	Er mwyn cynorthwyo i fireinio'u syniadau gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gymryd rhan mewn gweminar gydag arbenigwyr mewn cynllunio ymchwil, dulliau ansoddol a meintiol, ymglymu cleifion a gwella gwasanaeth. Byddan nhw hefyd yn ystyried manteisio i'r eithaf ar effaith eu prosiect a rheoli eu prosiect	Cynhelir y weminar ar 7 HYDREF 2020 .

Cam 4	Gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gyflwyno ffurflen gais lawn o'u cynnig	11 TACHWEDD 2020
Cam 5	Ar ôl llunio rhestr fer o geisiadau o'r cynigion llawn, dewisir drwy gyfweiliad.	Cynhelir cyfweiliadau ar 9 RHAGFYR 2021
Cam 6	Bydd Cymrodoriaethau yn cychwyn	IONAWR 2021

Ceir y ffurflenni cais perthnasol a chyfarwyddyd pellach (gan gynnwys manylion y cyllido) ar www.rcbcwales.org.uk.

Am wybodaeth am gyfleoedd penodol, cysylltwch â'r sefydliadau perthnasol yn uniongyrchol (manylion cyswllt isod). O ran ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â Marina McDonald, RCBC Cymru/Wales, Prifysgol De Cymru. E-bost: marina.mcdonald@southwales.ac.uk

Sefydliadau Cydweithrediadol a Chysylltiadau:

Prifysgol De Cymru
Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg
Arweinyddion Gweithredol: Dr Gina Dolan
E-bost: gina.dolan@southwales.ac.uk
Neu'r Athro Joyce Kenkre
E-bost: joyce.kenkre@southwales.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Ysgol Astudiaethau Gofal Iechyd
Arweinyddion Gweithredol: Yr Athro Danny Kelly
E-bost: KellyDM@cardiff.ac.uk
Neu Dr Paul Gill
E-bost: GillP3@cardiff.ac.uk

Prifysgol Bangor
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Lorelei Jones
E-bost: lorelei.jones@bangor.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr
Adran Gwyddorau Cymdeithasol ac Addysg
Arweinydd Gweithredol: Dr Joanne Pike
E-bost: j.pike@glyndwr.ac.uk

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ysgol Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Robert Mayr
E-bost: rmayr@cardiffmet.ac.uk

Prifysgol Abertawe
Ysgol Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Yr Athro Jaynie Rance
E-bost: j.y.rance@swansea.ac.uk